gyrfacymru.com

Golwg ar

STEM

Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg



Cynnwys

Mwy o gyfleoedd a rhagolygon gwell

Galw mawr am sgiliau STEM

Pam astudio pwnc neu gwrs STEM?

Pa swyddi allwn i eu gwneud â sgiliau STEM?

Cwrdd â'r Cyflogwyr

Faint alla i ennill?

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Oes angen sgiliau Cymraeg arnaf?

Beth am y dyfodol?

46

Mwy o gyfleoedd a rhagolygon gwell

Allwch chi weld eich hun yn dylunio tyrbin gwynt neu adeiladu'r Airbus nesaf; datblygu cyffuriau newydd neu decstilau perfformiad uchel; neu efallai ffilmio'r Doctor Who nesaf?

Mae llawer o gyfleoedd swyddi cyffrous ar gyfer pobl sydd â sgiliau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) ac nid ar lefel gradd yn unig.

Mae gan bobl sydd â sgiliau STEM ragolygon gyrfa gwell ac maent hefyd yn gallu ennill mwy o arian!

Mae **72%** o holl fusnesau'r DU yn dibynnu ar bobl sydd â sgiliau STEM (CBI, 2014)

Mae graddedigion STEM yn ennill **£250,000** yn fwy yn ystod eu bywydau na'r rhai nad ydynt yn raddedigion (Gyrfaoedd STEM)

Dim ond **1/5** o fyfyrwyr Ffiseg Lefel A sy'n ferched (EngineeringUK, 2014)

Mae **53%** o gyflogwyr yn disgwyl trafferthion recriwtio technegwyr a graddedigion STEM yn y tair blynedd nesaf (CBI, 2014)

Galw mawr am sgiliau STEM

Mae angen technegwyr medrus yn ogystal â graddedigion STEM ar Gymru. Nid cyflogwyr STEM yn unig sydd eisiau sgiliau STEM. Mae pob cyflogwr yn chwilio am y sgiliau y gall astudio pwnc STEM eu rhoi i chi; sgiliau fel datrys problemau a rhifyddeg.

Mae ar Gymru angen mwy o..

Geneteg wyr, Therapyddion, Fferyllwyr,

Peirianwyr, Nyrsys, Technegwyr Medrus,

Technolegwyr Tecstilau, Biolegwyr Morol, **Meddygon,**

Cyfrifwyr, **Crefftau Adeiladu Medrus,**

Dylunwyr, Athrawon STEM, Gwyddonwyr Amgylcheddol,

Rhaglenwyr Cyfrifiadurol.

Pam astudio pwnc neu gwrs STEM?

Bydd **1** o bob **5** swydd newydd sy'n cael eu creu yn y DU erbyn 2022 yn swyddi STEM.

Erbyn 2022, bydd ar Gymru angen..

25,000
o nyrsys

11,000
o weithwyr TGCh a Thelathrebu proffesiynol

20,000
o weithwyr iechyd proffesiynol

8,000
o beirianwyr

19,000
o rolau gwasanaethau ariannol/cyfrifyddu

4,500
o wyddonwyr

17,000
o swyddi adeiladu

4,300
o dechnegwyr gwyddoniaeth a pheirianneg

Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith Cymru 2012-2022

Pa swyddi allwn i eu gwneud â sgiliau STEM?

Rhai o'r gyrfaoedd sy'n defnyddio sgiliau STEM:

- Adeiladu
- Amaethyddiaeth
- Anifeiliaid
- Bwyd a Diod
- Cerbydau
- Cyfrifiaduron
- Cyllid
- Cynhyrchu Olew a Nwy
- Dysgu
- Ffilm, Teledu a Radio
- Gwyddorau Biolegol
- Gyrfaoedd Cemeg
- Gyrfaoedd Deintyddol
- Gyrfaoedd Gwyddonol
- Gyrfaoedd mewn Ffiseg
- Iechyd a Meddygaeth
- Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Peirianneg
- Peirianneg Fecanyddol
- Plastigau a Pholymerau
- Y Diwydiant Awyrennol
- Y Diwydiant Dŵr
- Y Diwydiant Tecstilau
- Yr Amgylchedd

Cwrdd â'r Cyflogwyr

Dyma rhai o gyflogwyr STEM Cymru:

RWE npower plc
Ynni ac Ynni Adnewyddadwy, Safleoedd Ynni Gwynt, Gogledd Cymru.

BTG Protherics UK Ltd
Cynhyrchion Gofal Iechyd, Llandysul, Ceredigion.

Valero
Purfa Olew, Penfro.

Tinopolis Cymru
Cynhyrchu Cyfryngau.

Airbus
Gwneuthurwyr Awyrennau, Brychdyn, Sir y Fflint

Admiral Group plc
Yswiriant, Abertawe, Casnewydd, Caerdydd.

Biomet UK Ltd
Cynhyrchwyr Mewnblaniadau ac Offerynnau Llawfeddygol, Pen-y-bont ar Ogwr.

SPTS Technologies Ltd
Cynhyrchwyr Electroneg Casnewydd.

Faint alla i ennill?

Gall cyflogau amrywio'n fawr yn dibynnu ar eich profiad, y cyflogwr a'r ardal lle mae'r gwaith.

Gall swyddi uwch ennill mwy o arian na'r isod (£)	
Technolegydd Anifeiliaid	£15,000 - £28,000
Mecanydd Cerbydau	£15,000 - £27,000
Broadcasting Sound Operative	£16,000 - £34,000
Dylunydd Graffeg	£18,000 - £35,000
Nyrsio	£18,000 - £47,000
Dylunydd Gwefan	£18,000 - £30,000
Technegydd Fferm Wynt	£19,000 - £33,000
Swyddog Cadwraeth Amgylcheddol	£21,000 - £34,000
Hydroddaearegwr	£22,000 - £46,000
Syrfëwr Meintiau	£22,000 - £46,000
Biolegydd Morol	£22,000 - £47,000
Peiriannydd Niwclear	£22,000 - £42,000
Athro Cymwysedig	£22,000 - £37,000



Gall swyddi uwch ennill mwy o arian na'r isod (£)	
Syrfëwr Meintiau	£22,000 - £46,000
Peiriannydd Ynni/Tanwydd Adnewyddadwy	£22,000 - £46,000
Datblygwr Systemau	£24,000 - £46,000
Technolegydd Tecstilau	£22,000 - £45,000
Peiriannydd Mecanyddol Uwch	£25,000 - £48,000
Meddyg	£28,000 - £101,000
Pensaer (Uwch/partner neu gysylltiol)	£30,000 - £50,000
Rheolwr TGCh	£37,000 - £50,000
Cyfrifydd Siartredig (â phrofiad)	£45,000 - £61,000



Mae'r cyflogau graddedigion cychwynnol uchaf yn y pynciau STEM

1. Deintyddiaeth
£30,681

2. Peirianneg Gemegol
£28,992

3. Meddygaeth
£28,871

4. Peirianneg Gyffredinol
£27,280

5. Peirianneg Fecanyddol
£26,197

6. Economeg
£26,146

7. Meddygaeth Filfeddygol
£26,045

8. Peirianneg Awyrennol a Gweithgynhyrchu
£25,061

9. Technoleg Deunyddiau
£24,870

10. Ffiseg ac Astronomeg
£24,504

Y cyflog cychwynnol cyfartalog ar gyfer graddedigion yw **£21,702**

Ffynhonnell: HESA 2011-12 Cyhoeddwyd Mai 2014

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Mae angen sgiliau STEM lefel uchel ar Gymru. Enillwch gymaint o gymwysterau ag y gallwch. Bydd y galw ar gyfer graddedigion sydd â graddau sy'n gysylltiedig â phynciau STEM yn tyfu'n gyflymach nag ar gyfer pynciau eraill, yn enwedig ar gyfer:

- Meddygaeth, meddygaeth atgynhyrchiol a galwedigaethau cysylltiedig
- Y Gwyddorau Biolegol a Chemegol
- Y Gwyddorau Ffisegol
- Y Gwyddorau Amgylcheddol
- Y Gwyddorau Cyfrifiadurol a Mathemategol
- Uwch Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu
- Peirianneg, Technoleg a Phensaernïaeth
- Y Gwyddorau Morol
- Technoleg a Chyfryngau Digidol
- Dysgu pynciau STEM

'Mae galw mawr am bobl sydd â sgiliau STEM ar bob lefel, boed yn brentisiaethau a thechnegwyr, neu uwch' CBI, 2014

Gwelwch sut i gael hyd i swydd STEM penodol.

Rhowch gynnig ar ein Chwiliad Gyrfa

Dewch o hyd i gwrs AU

'Mae mwy nag un o bob 4 cyflogwr STEM yn nodi eu bod yn cael trafferth recriwtio technegwyr'
CBI, 2014

Nid y brifysgol yw'r unig opsiwn!

Mae angen sgiliau STEM ar bob lefel yng Nghymru. Mae nifer cynyddol o brentisiaethau sy'n gysylltiedig â STEM ar gael, ar wahanol lefelau mewn:

- Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid
- Peirianneg
- Technolegau Gweithgynhyrchu
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cyfrifyddu a Gwasanaethau Ariannol
- Technoleg y Cyfryngau
- Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal
- Adeiladu

Yn dibynnu ar lefel y brentisiaeth fe allech chi weithio tuag at gymhwyster lefel gradd, ennill cyflog ac osgoi ffioedd myfyrwyr.

Chwiliwch am Brentisiaethau

Ymchwiliwch i raglenni prentisiaethau cyflogwyr trwy'r Cynghorau Sgiliau Sector

Oes angen sgiliau Cymraeg arnaf?

Os ydych yn gweithio yng Nghymru, mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn gallu bod yn fanteisiol yn y gweithle, yn enwedig os ydych yn gweithio yn y diwydiant gwasanaethau a swyddi sy'n ymwneud â chyfathrebu â phobl.

Mae'r galw ar gyfer sgiliau dwyieithog yn y diwydiannau STEM yn amrywio …

Galw uchel am sgiliau Cymraeg

- Y Cyfryngau
- Y Diwydiannau Creadigol
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Gwasanaethau Ariannol
- Dysgu Pynciau STEM

Galw isel am sgiliau Cymraeg

- Uwch ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu
- Y Gwyddorau Bywyd
- Peirianneg
- Diwydiannau Uwch dechnoleg a Byd eang

Beth am y dyfodol?

Disgwylir i'r twf mewn swyddi STEM fod ymhlith y cyflymaf yng Nghymru.
Swyddi STEM sy'n dangos y twf mwyaf yng Nghymru:



Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith Cymru 2012-2022